

# Crynodeb o Wiriad Ansawdd

Ward Cyril Evans, Ysbyty Treforys

Dyddiad y gweithgaredd: 9 Medi 2020

Dyddiad cyhoeddi: 7 Hydref 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Cofnod Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward Cyril Evans, Ysbyty Treforys fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull gweithredu haenog newydd mewn perthynas â sicrwydd. Maent yn cynnig un ymhlith sawl ffordd i AGIC edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Mae'r gwiriadau ansawdd hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull o gynnal arolygiadau [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwyr y ward ar 9 Medi 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

## Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a wynebir ganddo yn sgil COVID-19, a'r newidiadau a wnaed ganddo i sicrhau ei fod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion. Gwnaethom edrych ar bolisiau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol.

Cyril Evans yw un o'r wardiau sy'n rhan o'r gwasanaethau cardiaidd yn Ysbyty Treforys ac mae'n darparu triniaethau llawfeddygol dewisol wedi'u cynllunio i gleifion. Fodd bynnag, ar adeg y Gwiriad Ansawdd, roedd y gwasanaethau cardiaidd wedi addasu diben y ward dros dro o ganlyniad i'r pwysau cynyddol ar y gwasanaeth yn sgil pandemig COVID-19.

Mae hyn wedi arwain at fodel cyfunol o ddarparu gwasanaethau a oedd yn cynnwys Ward Dan Danino. Roedd triniaethau dewisol wedi'u cynllunio yn parhau i gael eu darparu fel rhan o waith Ward Cyril Evans, ond roeddent hefyd yn cael eu darparu ar Ward Dan Danino.

---

Roedd Ward Dan Danino yn cael ei defnyddio fel ardal werdd i gleifion a oedd wedi cael prawf COVID-19 negatif er mwyn paratoi i gael triniaeth.

Roedd y gwaith ailfodelu dros dro yn galluogi Ward Cyril Evans i gael ei defnyddio i roi gofal (brys) heb ei drefnu i gleifion cardioleg a chleifion cardiothorasig yn ystod y pandemig.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom ystyried y ffordd y mae swyddogaethau'r ward wedi newid ers dechrau'r pandemig a'r effaith y mae'r newid hwn wedi ei gael ar y staff a'r cleifion.

Roedd yr amgylchedd ward cyfunol wedi ei gwneud yn ofynnol i adleoli rhai aelodau o staff y ward i weithio mewn ardaloedd clinigol eraill, megis gofal dwys cardiaidd. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi bod yn anodd i rai aelodau o'r staff o ganlyniad i'r newid o ran aciwtedd y cleifion, y gofynion ychwanegol o ran cyfarpar diogelu personol a'r newid i strwythurau timau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y staff wedi croesawu'r newid hwn gyda brwdfrydedd, a gwelsom fod rheolwyr y ward yn falch o'r hyblygrwydd roedd y staff yn ei ddangos.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant sylfaenol gan yr addysgwr clinigol perthnasol cyn cael eu hadleoli er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau a'r amgylchedd ward newydd. Dywedwyd wrthym fod y staff hefyd wedi cael taflen sefydlu i'w chwblhau yn ystod eu sifft gyntaf er mwyn cefnogi'r broses drosglwyddo ymhellach.

Gwelsom fod achosion a dderbyniwyd i'r ward heb eu trefnu yn cael eu rheoli gyda chymorth cydgysylltydd llif cardiaidd sy'n gweithio'n agos gyda'r adran achosion brys i reoli nifer y gwelyau a'r galwadau amdanynt.

O ganlyniad i'r newid mewn anghenion ac aciwtedd y cleifion, gwnaethom ystyried sut roedd staff y ward yn cael cymorth i gael gafael ar staff meddygol ar ddyletswydd a chael cyngor. Dywedwyd wrthym fod darpariaeth wedi cael ei gwneud ar gyfer hyn pan wnaed y newidiadau i amgylchedd y ward. Hefyd, roedd staff y ward yn hyderus i ofyn am gyngor meddygol ac yn gallu cael cyngor pan oedd ei angen.

Dywedwyd wrthym am yr oedi a fu wrth wneud rhai triniaethau a thriniaethau dilynol o ganlyniad i COVID-19, er enghraifft angiogramau ac ecocardiogramau. Fodd bynnag, gwelsom fod clinigau rhithwir a chyfarfodydd timau amlddisgyblaethol wedi parhau, a bod cleifion yn cael eu derbyn ar sail ad hoc pan fo angen. Gwelsom hefyd fod triniaethau eraill wedi parhau i fynd rhagddynt, er yn llai aml yn ystod COVID-19. Mae'n bwysig bod y bwrdd iechyd yn monitro'r amseroedd aros ar gyfer y triniaethau hyn er mwyn asesu effaith yr achosion o oedi.

Gwelsom fod angen i bob claf a oedd yn cael triniaeth ddewisol a drefnwyd hunanynysu, ateb cwestiynau sgrinio a chael canlyniad negatif i brawf COVID-19 cyn cael ei dderbyn i'r ward. Roedd angen i gleifion llawfeddygol gael sgan tomograffeg gyfrifiadurol<sup>1</sup> hefyd fel dull sgrinio ychwanegol cyn eu triniaeth.

Gwelsom fod timau'r wardiau wedi cael eu rhannu er mwyn darparu ar gyfer pob arbenigedd a bod cyfleusterau, megis ystafelloedd staff, toiledau a cheginau, wedi cael eu

---

<sup>1</sup> Mae sgan tomograffeg gyfrifiadurol yn defnyddio pelydrau-X a chyfrifiadurol i greu delweddau manwl o'r tu mewn i'r corff.

---

haddasu ymhellach i sicrhau bod modd cadw cleifion a oedd wedi cael eu sgrinio, timau'r wardiau a chleifion brys nad oedd wedi cael eu sgrinio a gafodd eu trosglwyddo o'r adran achosion brys ar wahân.

Roedd ciwbiclau unigol hefyd ar gael i ynysu cleifion os oedd angen. Dywedwyd wrthym sut mae'r ward yn rheoli ac yn blaenoriaethu'r ciwbiclau yn effeithiol ar sail risgiau ac anghenion clinigol, gan gynnwys gweithio'n agos gydag unedau cardiaidd eraill yn yr ysbyty pan fo angen. Gwelsom fod adolygiadau o'r cleifion yn cael eu cynnal bob dydd i wneud yn siŵr bod amgylchedd y ward yn parhau'n addas ar eu cyfer.

Gwelsom fod y trefniadau arferol ar gyfer ymweld â chleifion ar y ward wedi cael eu hatal dros dro yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, roedd proses ymweld wedi cael ei chyflwyno yn unol â'r canllawiau diweddaraf, er enghraifft ar gyfer cleifion ar lwybr diwedd oes neu gleifion â dementia.

Dywedwyd wrthym fod llechi yn cael eu darparu i gleifion nad oeddent yn gallu gweld ymwelwyr wyneb yn wyneb oherwydd bod y trefniadau ymweld wedi cael eu hatal dros dro, a bod y staff wedi treulio amser yn cadw mewn cysylltiad â pherthnasau'r cleifion dros y ffôn.

Gwelsom fod asesiadau risg unigol ar gyfer COVID-19 wedi cael eu cynnal ar gyfer y staff. Lle y nodwyd risg uchel, dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn cael eu cefnogi i symud i amgylchedd clinigol gwahanol, megis ar ardal werdd ar gyfer unigolion a gafodd eu sgrinio, neu amgylchedd anghlinigol.

Dywedwyd wrthym fod nifer fach o'r staff wedi bod yn absennol o'r gwaith o ganlyniad i salwch cysylltiedig â COVID-19. Fodd bynnag, cynhaliwyd cyfweiliad dychwelyd i'r gwaith ar gyfer pob aelod o staff i drafod a allai'r salwch fod wedi bod yn gysylltiedig ag unrhyw broblemau yn y gweithle.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw ddigwyddiadau hysbys lle roedd unrhyw un o'r cleifion wedi cael COVID-19 fel cleifion mewnol ar y ward.

Dywedwyd wrthym mai un o'r heriau ar gyfer y staff yn ystod y pandemig oedd y defnydd o gyfarpar diogelu personol llawn mewn amgylchedd ward newydd. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yr holl staff wedi cael prawf ffitio'r wyneb<sup>2</sup>. Fodd bynnag, lle roedd angen dod o hyd i gyfarpar diogelu personol amgen, dywedwyd wrthym y byddent yn gofyn i'r staff weithio mewn ardal glinigol neu anghlinigol wahanol nes y gellid dod o hyd i gyfarpar a oedd yn ffitio'n briodol.

Roedd gan y ward ddigon o gyfarpar diogelu personol, a gwelsom fod hyfforddiant rheolaidd ar sut i wisgo a diosg y cyfarpar wedi cael ei roi gan aelod o staff llawn amser ar y ward er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod sut i wisgo, diosg a gwaredu cyfarpar diogelu personol yn ddiogel.

Gwelsom fod trefniadau glanhau wedi cael eu gwella ar y ward. Dywedwyd wrthym fod mwy o staff domestig wedi cael eu rhoi ar y rota i weithio ar y ward, gyda threfniadau ar waith i gadw ardaloedd y ward ar wahân. Gofynnwyd i'r staff hefyd lanhau pwyntiau cyffwrdd ar y ward sy'n cael eu cyffwrdd yn aml er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint ymhellach.

---

<sup>2</sup>Prawf ffitio yw ffordd o wneud yn siŵr bod darn wyneb anadlydd yn cyfateb i nodweddion wyneb unigolyn ac yn selio i'w wyneb yn ddigonol.

---

Gwelsom fod capasiti'r ward ar ei uchaf o ganlyniad i gleifion ag aciwtedd uchel a llif cleifion uchel. Mae hyn wedi gwaethygu oherwydd effeithiau COVID-19 a'r newidiadau i amgylchedd y ward.

Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod lefelau staffio diogel wedi cael eu cynnal bob amser, a bod cael nyrs ychwanegol ar y rota ar gyfer pob sifft pan oedd y pandemig ar ei waethaf wedi helpu tîm y ward i gefnogi anghenion y cleifion yn well.

Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried sut y gall gefnogi a chynnal y trefniadau staffio hyn ymhellach, yn arbennig wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o niwed pwyso neu niwed i feinweoedd. Gwnaethom hefyd holi'r lleoliad ynghylch y newidiadau a wnaed ganddo i sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Mae gan y lleoliad amrywiaeth o archwiliadau a gynhelir drwy gydol y flwyddyn, sy'n cynnwys archwiliadau ar ddiogelwch cleifion a briwiau pwyso a niwed i'r meinwe. Gwnaethom edrych ar sampl o'r rhain a gwelsom fod sgoriau cadarnhaol wedi cael eu cyflawni yn gyffredinol. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw ddigwyddiadau'n cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd ansawdd a diogelwch wythnosol lle y byddai'r staff yn tynnu sylw'r uwch-fetron at unrhyw broblemau.

Gwelsom fod y cleifion yn cael nifer o asesiadau, megis asesiadau risg o gwmpo, pan gânt eu derbyn i'r ward. Mae hyn yn helpu wrth ddarparu gofal a thriniaeth yn unol ag anghenion, yn ogystal â sicrhau diogelwch y cleifion. Dywedwyd wrthym fod addasiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd o ganlyniad i oedran ac eiddilwch rhai o'r cleifion ar y ward, gan gynnwys cael lloriau di-lithro yn y prif goridor, defnyddio matiau synhwyro i roi gwybod am gwympiadau a defnyddio llyfrau lliwio i'r cleifion sy'n dioddef o ddementia fel dull arall o atal cwympiadau. Gwelsom hefyd fod ymchwiliadau wedi cael eu cynnal i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â chwympiadau, a bod y gwersi a ddysgwyd wedi cael eu cymhwyso ar lefel y ward ac ar lefel y bwrdd iechyd.

Gwelsom fod cilfannau un rhyw a chilfannau rhyw cymysg yn cael eu defnyddio ar y ward. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r defnydd o'r cilfannau yn dibynnu ar aciwtedd y cleifion, ac y byddai cilfannau unigol yn cael eu blaenoriaethu yn unol â hynny. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd toiledau un rhyw ar gael am nad oedd digon o le ar y ward. Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried sut mae'n defnyddio lle ar y ward gyda'r nod o ddarparu cyfleusterau toiled un rhyw, lle y bo'n bosibl.

---

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Gwnaethom edrych ar y polisiâu rheoli heintiau, y cyfraddau heintiau a'r asesiadau risg.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fodd gweithdrefn ar gyfer atal a rheoli heintiau a ddiweddarwyd yn ddiweddar ar waith. Dywedwyd wrthym fod rheolwr y ward yn gyfrifol am rannu gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a'u rhoi ar waith, ac y rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf am atal a rheoli heintiau i staff y ward yn ystod gwahanol gyfarfodydd trosglwyddo cleifion bob dydd ac mewn cylchlythyr i staff. Mae hyn hefyd yn cynnwys galwadau ffôn dyddiol â phob un o'r metronau ym mhob rhan o'r ysbyty, gyda chynrychiolydd atal a rheoli heintiau yn cyfrannu at yr alwad.

Dywedwyd wrthym hefyd fod archwiliadau ychwanegol yn cael eu cynnal ar ben yr archwiliadau atal a rheoli heintiau arferol yn ystod pandemig COVID-19, gan y grŵp atal a rheoli heintiau lleol sy'n cynnwys staff nad ydynt yn gweithio ar y ward.

Gwnaethom edrych ar sampl o archwiliadau atal a rheoli heintiau diweddar a gynhaliwyd ar y ward, a gwelsom fod yr archwiliadau hyn yn cael sgôr gadarnhaol mewn nifer o feysydd.

Dywedwyd wrthym fod cyfleusterau ar y ward i ynysu cleifion â COVID-19 lle bo angen, a bod asesiadau risg ynysu yn cael eu cynnal. Mae hyn yn cynnwys canfod lefel y risg o drosglwyddo a sicrhau bod y staff yn defnyddio'r cyfarpar diogelu personol cywir.

Roedd yn ymddangos bod cyfraddau heintio nad oeddent yn gysylltiedig â COVID-19 ar y ward yn cael eu rheoli'n briodol. Dywedwyd wrthym fod achosion o heintio yn cael eu hadolygu yng nghyfarfod y tîm aml-ddisgyblaethol a bod unrhyw wersi a ddysgir yn cael eu rhannu â staff y ward.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiâu (megis uwchgyfeirio).

---

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod gweithdrefnau addas yn bodoli ar gyfer sicrhau bod lefelau staffio yn briodol ac yn cynyddu pan fo angen, er enghraifft cynnydd mewn aciwtedd ar y ward neu absenoldeb staff. Dywedwyd wrthym fod anghenion ac aciwtedd y cleifion yn cael eu hasesu bob dydd ac yn cael eu cyfeirio at fetron y ward pan fo gofynion staffio ad hoc ychwanegol.

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer sicrhau bod cymysgedd priodol o sgiliau ar y ward. Roedd rheolwr y ward wedi rhoi system Coch, Melyn, Gwyrdd ar waith i sicrhau bod cydbwysedd rhwng uwch-staff nyrsio a staff iau, gyda gwyrdd, er enghraifft, yn nodi staff profiadol sy'n cydgysylltu sifftiau'n rheolaidd ac sydd â phrofiad o ofalu am y grŵp cleifion, a choch yn nodi aelod newydd gymhwyso o'r staff neu aelod newydd o'r tîm. Roeddem o'r farn bod hyn yn arfer da.

Gwelsom fod lefelau salwch cyffredinol ar y ward yn ymddangos yn isel, a bod cymorth ar gael gan yr uned iechyd galwedigaethol, pe byddai angen.

Cawsom ystadegau hyfforddiant gorfodol a gwelsom fod cyfradd gydymffurfio uchel ar y cyfan ym mhob maes.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

---



# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.